# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 4 Mehefin 2024

Amser: 09.01 - 09.12

# Remote / Private

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Russell George AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Roedd Russell George yn bresennol ar ran Darren Millar.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)
- Dadl: Adroddiad Ymchwiliad Gwaed Heintiedig (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol: Trawsnewid Gwasanaethau Plant (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth: Trawsnewid y Rheilffyrdd: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Metro yn Ne Cymru a'r Rhaglen i Ddiweddaru'r Fflyd (30 munud)
- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)
- Dadl: Y Diwydiant Dur yng Nghymru (60 munud)

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.40pm

**Dydd Mercher**

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.40pm

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes ei bod wedi cymeradwyo trefniant pleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer Jack Sargeant oherwydd absenoldeb rhiant, a fydd yn

weithredol rhwng 4 Mehefin 2024 a 28 Mehefin 2024. Bydd y bleidlais drwy ddirprwy yn cael ei chynnal gan Vikki Howells.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 11 Mehefin 2024**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Amgylchedd morol cynaliadwy yng Nghymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth: D Day ac wythnos y lluoedd arfog (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Y sector manwerthu – cyfrannu at genhadaeth economaidd Cymru (45 munud)

**Dydd Mawrth 18 Mehefin 2024**

- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol: Wythnos y ffoaduriaid: ein cartref (45 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Cymru Greadigol: diweddariad sgiliau (45 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (60 munud)
    - Egwyddorion cyffredinol Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol)
    - Y penderfyniad ariannol ynghylch Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol))

Rrhoddodd y Trefnydd wybod i’r Rheolwyr Busnes bod Cam 3 y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) wedi'i ohirio tan 2 Gorffennaf.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar y newidiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 12 Mehefin 2024 -**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru (5 munud)
- ~~Dadl Fer: Joel James AS (Canol De Cymru) (30 munud)~~ *Tynnwyd yn ôl*

**Dydd Mercher 26 Mehefin 2024 -**

- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar Ddeiseb P-06-1437: Tyfu, nid torri, cyllid y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Heledd Fychan AS (Canol De Cymru) (30 munud)

Gofynnodd y Llywydd i'r Rheolwyr Busnes atgoffa eu grwpiau mai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno cynigion i'w hystyried ar gyfer y Ddadl gan Aelod ar 19 Mehefin yw 5.00pm ddydd Iau, 6 Mehefin.

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd a nododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariadau ar Filiau'r DU yr oedd cais am ganiatâd deddfwriaethol arnynt, ac a oedd bellach naill ai wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol neu a oedd wedi disgyn ar ddiddymiad Senedd y DU. Cytunodd y Pwyllgor i ddiddymu'r holl derfynau amser adrodd presennol ar gyfer pwyllgorau ar femoranda cydsyniad deddfwriaethol.

# 5 Pwyllgorau

## 5.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - cais am slot ar gyfer dadl

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu dadl ar ddeiseb *P-06-1437. Tyfu, nid torri, cyllid y Llyfrgell Genedlaethol, Amgueddfa Cymru a'r Comisiwn Brenhinol* ddydd Mercher 26 Mehefin Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ystyried hyd y ddadl yn nes at yr amser.

# 6 Unrhyw Fater Arall

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes *y c*ynhelir sesiynau galw heibio o gwmpas y Cyfarfod Llawn ar 12 a 19 Mehefin i roi cyfle cynnar i'r Aelodau rannu eu meddyliau neu ddisgwyliadau cychwynnol ynghylch rhaglen adolygiadau gweithdrefnol y Pwyllgor Busnes sy'n deillio o Ddiwygio'r Senedd. Bydd safbwyntiau a fynegir yn cael eu hystyried wrth ddatblygu Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer y gwaith, a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Busnes cyn toriad yr haf.